# 13. Y MILWYR

**Darllen**: Marc 15: 16-20

Trosglwyddwyd y carcharor i ofal y milwyr a chymerwyd ef i iard y Praetoriwm. Pwy oedd y dynion hyn a fu'n ei gam-drin yn y fath fodd? Milwyr Rhufain oeddent, yn 'ufudd i orchmynion' ac yn cyflawni 'eu dyletswydd', ac mor debyg felly i lawer o ddynion eraill ar hyd yr oesau hyd heddiw. Roedd tua chwe chant ohonynt yn yr Antonia a chredir eu body n perthyn i'r Ail Gatrawd Eidalaidd. Buont ar ddyletswydd am oriau oherwydd yr Iddew bach, eiddil hwn ac arweinwyr ei genedl ofnadwy. Yr oedd yn gas ganddynt y wlad arswydus hon a'i phobl, a fu'n achosi problemau diddiwedd i luoedd cyfiawnder Rhufain. Onid braint i bobl orthrymedig trefedigaethau Rhufain oedd cael cyfrannu o'u gwareiddiad imperialaidd a'r Pax Romana (heddwch Rhufain)? Ond, yn lle bod yn ddiolchgar, y cyfan a wnaethant oedd disgwyl eu cyfle i roi cyllell yng nghefn unrhyw un ohonynt.

Mor wahanol oedd y dyn hwn i'r Rhufeiniaid dewr, a hyd yn oed i Iddewon eraill. Nid oedd gair ganddo wrth iddo gael ei fflangellu, dim rhegi, dim jocian, ac mor wahanol i'r Iddew arall a fu yn eu dwylo - y Barabbas hwnnw, ymladdwr dewr yn siarad iaith milwyr. Gorchmynnodd Pilat i Iesu gael ei fflangellu fel rhan o broses ei ddienyddio, sef ei arteithio mewn ffordd ofnadwy, trwy ddefnyddio chwip o ledr gydag esgyrn miniog a darnau o blwm arni. Lladdwyd llawer o ddynion gan y fath gamdriniaeth ac aeth eraill yn wallgof. Ychydig iawn oedd yn deffro ar ddiwedd y driniaeth erchyll hon. Ond, nid dyna ddiwedd ar ei ddioddef. Ar ôl ei fflangellu roedd cyfle ganddynt i gael tipyn o hwyl gydag ef, a thalu rhywfaint yn ôl iddo am flinder y dydd a thriciau cas ei genedl.

O dan leiandy'r Chwiorydd Seion yn Jerwsalem, darganfuwyd iard gyda ffordd wrth ei hymyl. Cred archeolegwyr mai hon yw'r Gabbatha, y Palmant, y tir tu allan i'r Praetoriwm. Ar un o faneri'r iard, fe welir siâp gêm fwrdd wedi ei grafu, gan filwr Rhufeinig mae'n debyg. *Basilews* (Y Brenin) yw enw'r gêm, rhywbeth tebyg i *Monopoly*, i'w chwarae trwy daflu dis. Yn achlysurol, rhoddwyd carcharor i'r milwyr ar gyfer y gêm – rhaid cadw'r milwyr yn hapus! Ceir symbolau ar y bwrdd, gan gynnwys chwip, coron ddrain ac ati. Wrth i filwr symud ar y bwrdd yn ôl rhif y dis, a glanio ar un o'r symbolau, roedd ganddo'r hawl i benderfynu

a fyddai carcharor yn derbyn y gosb honno ai peidio. Gwobr enillydd y gêm oedd cael penderfynu a ddylid lladd y carcharor neu adael iddo fyw. Mae'n bosibl, medd rhai arbenigwyr, fod y milwyr wedi dechrau chwarae '*Basilews'* gydag Iesu wrth iddynt aros am y gorchymyn i fynd ag ef i Galfaria.

Roedd hi'n hen bryd am fwy o sbort. Gan mai 'Brenin yr Iddewon' oedd y dyn hwn, rhaid ei wisgo fel brenin. Rhoddwyd mantell milwr ar ei ysgwyddau gyda'i leinin coch y tu allan yn debyg i liw gwisg frenhinol. Plethodd un ohonynt ddrain at ei gilydd er mwyn creu coron a'i gwasgu ar ben yr Iddew. Roedd y symbolaeth yn gwbl eglur, canys yn y ganrif gyntaf Oed Crist, cafwyd darlun o Cesar yn gwisgo coron o bigau llachar ar arian Rhufeinig, fel pelydrau'r haul, neu goron ddrain. Rhoddwyd gwaywffon yn ei law fel teyrnwialen. Roedd y brenin yn barod iddynt ei gyfarch. Dyn cwbl ddieuog yn disgwyl dienyddiad oedd hwn, wedi ei gam-drin gan yr archoffeiriad, y Sanhedrin, heddlu'r Deml a'r dorf, gan Herod a'i lys a'i filwyr. Cafodd ei waradwyddo ganddynt ac yna ei fflangellu, ac yn awr dyma filwyr Rhufain yn ei watwar a chael hwyl am ei ben. Ar ddyletswydd gwaeddant: '*Henffych well, Cesar, Gorchfygwr, Ymerawdwr!*' Yma, cri debyg sydd ganddynt: '*Henffych well, Frenin yr Iddewon!*' Wrth gwrs, nid dyma'r unig dro i Grist gael ei wisgo fel milwr; enghraifft arall yw 'Christ in Khaki' yn ystod y rhyfel byd cyntaf.

Bywyd caled a chreulon oedd bywyd y milwr Rhufeinig. Efallai bod llawer o'r milwyr hyn wedi profi llach tebyg ar eu cefnau eu hunain. Roeddent yn haeddu tipyn o hwyl, peth da i godi calon y catrawd, dyna oedd cred y fyddin. Pa niwed oedd yn eu chwarae? Dirmyg sydd ganddynt tuag at y carcharor am ei fod yn ddi-asgwrn cefn gyda'i siarad am garu cymydog a maddau a cherdded yr ail filltir. Hefyd, i'r milwyr, roedd y dyn hwn yn cynrychioli ei genedl a'i chrefydd. Dirmyg y concwerwr a'r imperialydd sydd yma at y rhai a goncrwyd ac yn arbennig casineb at yr Iddewon a fu'n achosi mwy o helynt na'r un arall o'r cenhedloedd; cenedl orchfygedig oedd wedi ei hesgusodi o gymaint o reolau Rhufain - yr unig genedl i fod yn rhydd o orfodaeth filwrol am nad oeddent yn barod i ymladd ar y Saboth; yr unig wlad lle nad oedd byddin yr ymerodraeth yn medru ymfalchïo yn ei heryrod ar y stryd. Nid peth newydd mo hiliaeth. '*Pa wahaniaeth sydd, os ydyw'n gweithio?*' oedd ymateb bechgyn o ysgol fonedd Seisnig wrth iddynt weld tystiolaeth o gam-drin carcharorion yn Kenya adeg Mau Mau.

Mae'r geiriau i'w clywed o hyd; onid dyma hanes yr hil ddynol? Yr hyn sy'n ofnadwy yma yw bod Mab Duw yn cael ei gam-drin fel un o dlodion y llawr, a gafodd eu cam-drin fel hyn erioed. Gweithred unigryw sydd yma ar un llaw, ond ar y llaw arall, fe gynrychiola holl gamdriniaeth hanes y ddynoliaeth. Y mae Crist yn casglu pawb sydd wedi dioddef ar hyd hanes ynghyd. Beth bynnag a wna dynion i'w gilydd, gwneud hynny y maent i Dduw.

Barn William Barclay yw bod y milwyr yn llai euog na'r arweinwyr Iddewig am eu bod yn gweithredu mewn anwybodaeth. Am unwaith, rhaid anghytuno ag ef. Mae'n wir na all neb eu condemnio am gabledd, ond yn ôl y proffwyd Amos, y maent yn euog o droseddau yn erbyn dynoliaeth. Efallai mai bod yn annynol yw'r cabledd mwyaf.

**Gweddi:**

*Arglwydd Iesu Grist, dy gariad di dy hun achosodd i ti gael dy hoelio i'r groes.*
*Grist ein Brawd, ein pechod ni a'th hoeliodd di i'r groes,*
*ond dy gariad di a'th gadawodd yno. Dy gariad di ofynnodd am faddeuant i'th lofruddwyr.*
*Dyro i ni dy gymorth, Arglwydd, i dderbyn mwy o'th gariad*
*er mwyn i ni garu'n brodyr a'n chwiorydd yn nheulu'r Ffydd a'n cymydog yn y byd.*
*Par i'th faddeuant di ein galluogi i faddau i eraill,*
*er mwyn dy ras. Amen.*